Uned Drafnidiaeth Integredig

Pandemig COVID-19 – Gwybodaeth ynglŷn â Chludiant Cartref i'r Ysgol I Rieni / Gofalwyr Dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae'n hanfodol nad yw dysgwyr yn teithio ar gludiant ysgol os ydynt yn teimlo'n sâl, yn enwedig os oes ganddynt symptomau COVID-19, sy'n cynnwys peswch newydd, parhaus, tymheredd uchel, neu wedi colli'r gallu i flasu neu arogli, neu os ydynt yn byw ar aelwyd gyda rhywun sy'n arddangos unrhyw un o'r symptomau hyn. Dylent hunanynysu ac aros gartref.

Gwybodaeth

Mae'r wybodaeth hon wedi ei chynhyrchu ar gyfer teuluoedd plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n defnyddio cludiant cartref i'r ysgol.

Mae'r Cyngor yn deall y gall teuluoedd fod yn bryderus ynglŷn â chludiant cartref i'r ysgol yn ystod y pandemig COVID-19. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys manylion ynglŷn a'r mesurau rydym wedi eu cyflwyno a sut y gall hyn effeithio eich teulu.

Mae'n cynnwys gwybodaeth ar:

1. Mesurau diogelwch ar gludiant cartref i'r ysgol;
2. Sut gall hyn effeithio eich teulu;
3. Y camau nesaf.

1. Mesurau diogelwch ar gludiant cartref i'r ysgol

Mae'r Cyngor wedi dilyn cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru https://www.gov.wales/coronavirus i sicrhau ei fod yn cludo plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol mor ddiogel ag y bo modd yn ystod y pandemig COVID-19.

Wrth i'r nifer sydd angen cludiant gynyddu, byddwn yn parhau i weithio o fewn canllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru i sicrhau diogelwch pob dysgwr (add in here link to school transport guidance)

Seddau ac ar y cerbyd

Bydd cynllun eistedd ar gyfer pob taith a bydd seddau wedi eu marcio'n glir os nad ydynt i gael eu defnyddio. Fel lleiafswm, ni fydd eich plentyn yn eistedd yn y mannau canlynol:

- Ni fydd seddau yn union nesaf i neu y tu ôl i'r gyrrwr yn cael eu defnyddio;
- Ni ddefnyddir seddau sy'n wynebu ei gilydd;

Efallai y bydd angen defnyddio cerbydau mwy lle nad yw capasiti yn caniatáu'r mesurau eistedd a restrwyd uchod. Efallai y bydd y cerbyd a ddefnyddir i gludo eich plentyn yn fwy na'r hyn y maent wedi arfer ag o. Os defnyddir tacsi, efallai y bydd sgrin yn gwahanu'r plentyn a'r Gyrrwr a'r Cynorthwywyr Teithwyr.

Bydd cerbydau wedi eu hawyru yn dda yn ystod y daith, felly bydd y ffenestri ar agor.

Er y gall rhieni deimlo'n nerfus ynglŷn â'r risgiau wrth ddefnyddio cludiant ysgol yn ystod y pandemig coronafeirws, dylent benderfynu os ydynt yn mynd i wneud hynny neu, os byddai'n well ganddynt, wneud eu trefniadau eu hunain i gludo eu plentyn i ac o'r ysgol.

Gyrwyr a Chynorthwywyr Teithwyr

Efallai y bydd newid yn y Gyrrwr neu'r Cynorthwyydd Teithwyr oherwydd mesurau 'gwarchod' ond bydd yr Uned Drafnidiaeth Integredig (UDI) yn ceisio cadw cysondeb lle bynnag y bo modd. Bydd yr un cerbydau a staff yn cael eu defnyddio i ddarparu cludiant bob dydd lle bo modd.

Bydd gofyn i chi helpu wrth roddi eich plentyn yn y cerbyd, megis defnyddio gwregysau diogelwch wrth sicrhau pellter cymdeithasol oddi wrth y Gyrrwr a'r Cynorthwyydd Teithwyr. Sicrhewch eich bod yn golchi eich dwylo cyn rhoi unrhyw gymorth a defnyddio glanweithydd dwylo gydag o leiaf 60% alcohol.

Gwerthfawrogir y bydd rhai plant a phobl ifanc angen cymorth ychwanegol wrth deithio ac ni fydd cadw pellter cymdeithasol yn bosibl. Darperir gwybodaeth am risg dan amgylchiadau o'r fath a bydd angen i Yrwyr a Chynorthwywyr Teithwyr ddefnyddio'r Offer Amddiffynnol Personol (PPE) priodol.

Mae PPE fel rheol yn cynnwys ffedogau a menig. Nid yw gorchudd wyneb a feisor wedi eu cynnwys yng nghyfarwyddyd presennol Llywodraeth Cymru ond efallai y bydd rhai Gyrwyr a Chynorthwywyr Teithwyr yn dewis eu gwisgo.

Nid yw cyfarwyddyd cludiant ysgol Llywodraeth Cymru yn argymell defnyddio masgiau wyneb ar gyfer disgyblion ADY ond os yw eich plentyn yn dymuno gwisgo un, sicrhewch eu bod yn gallu eu gwaredu yn briodol ac nad ydynt yn cael eu gadael yn y cerbyd.

Glanhau a Defnyddio Glanweithydd

Bydd cerbydau yn cael eu glanhau cyn ac ar ôl pob taith, gan dalu sylw arbennig i fannau cyffwrdd megis handlen y drws, allweddau, rheiliau llaw, lle mae'r pen/breichiau yn gorffwys, cefn y sedd, clustogau, gwregysau diogelwch, offer rheoli'r gyrrwr.

Lle bo modd, bydd cynhyrchion glanhau sy'n lladd y feirws COVID-19 megis rhai wedi eu cynhyrchu i Safon Prydeinig **BS EN 1276 neu BS EN 13697** yn cael eu defnyddio i amddiffyn yn erbyn COVID-19.

2. Sut fydd hyn yn eich effeithio chi a'ch plentyn

Efallai y bydd cludiant i'r ysgol yn wahanol i'r hyn y mae eich plentyn wedi arfer ag o, o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, a'r mesurau sy'n ceisio stopio ledaeniad. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech siarad gyda'ch plentyn am PPE ac esbonio ei bod yn debygol y bydd y Gyrrwr a'r Cynorthwyydd Teithwyr yn gwisgo menig, ffedogau ac mewn rhai achosion, gorchudd wyneb a/neu feisor.

Dangoswch luniau iddyn nhw lle bo modd ac esbonio nad oes unrhyw beth i'w ofni. Yn hytrach, mae'n ffordd o wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel ar eu taith i ac o'r ysgol. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe gallech esbonio pam na allent eistedd drws nesaf i'w ffrindiau.

Mae stori gymdeithasol fer *'Fy Nhaith i'r Ysgol'* yn dilyn ar ddiwedd yr wybodaeth hon. Gall fod yn ddefnyddiol wrth esbonio i'ch plentyn sut y bydd y trefniadau teithio yn wahanol i'r hyn maent wedi arfer â nhw.

Er y gall rhieni deimlo'n nerfus ynglŷn â'r risgiau wrth ddefnyddio cludiant ysgol yn ystod y pandemig COVID-19, dylent benderfynu os ydynt yn mynd i wneud hynny neu, os byddai'n well ganddynt, wneud eu trefniadau eu hunain i gludo eu plentyn i ac o'r ysgol.

Os ydych yn penderfynu y byddai'n well gennych fynd â'ch plentyn i'r ysgol eich hun, hysbyswch yr uned drafnidiaeth integredig os gwelwch yn dda, er mwyn iddyn nhw allu dyrannu'r lle i blentyn arall sydd ei angen.

3. Y camau nesaf

Bydd cludiant cartref i'r ysgol yn parhau i gael ei ddarparu i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.

Uned Drafnidiaeth Integredig
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
11 Awst 2020

Dolennau Cysylltiedig
https://gov.wales/coronavirus

Fy nhaith i'r ysgol

Bydd fy nhaith i'r ysgol yn wahanol

Mae hyn er mwyn helpu i stopio lledaeniad coronafeirws a chadw pawb yn ddiogel

Stay safe everyone.

Efallai y byddaf yn teithio ar amser gwahanol



Efallai na fyddaf yn cael yr un gyrrwr a chynorthwyydd teithwyr



Efallai y bydd fy ngyrrwr a’r cynorthwyydd teithwyr yn gwisgo menig a ffedog

Efallai y byddant hefyd yn gwisgo masg, feisor neu orchudd dros eu ceg.

Peidiwch a bod yn ofnus – mae hyn i’ch diogelu chi.

Byddaf yn teithio gyda llai o bobl

Efallai na fyddaf yn teithio gyda fy ffrindiau neu'r un plant ag a oedd ar y bws mini o'r blaen

Efallai y byddaf mewn cerbyd mwy na'r un roeddwn yn teithio ynddo o'r blaen

Nid wyf yn cael bwyta nac yfed ar y bws mini

No Food or Drink
Thank you!